# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD EBRILL 2023

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19 o Ebrill, 2023** |
| **AMSER** | **6 yh i'r Pwyllgor Cyllid a 7.00y.h. I aelodau'r Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Neuadd Rhostryfan** |
| **CADEIRYDD** | **Michelle Williams** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Nid oedd posib i'r Cadeirydd Michelle Williams fynychu'r cyfarfod heno. Cadeiriodd AHR am y noson.<br><br>**Yn bresennol heno roedd:**<br>Jason Hunt **(JH);** Gwilym Williams **(GLW)**; Gwilym Thomas **(GVT)**; Nerys Evans **(NE);** Aeron Maldwyn Jones **(AMJ);** Cyng. Huw Rowlands **(HR)**; Cyng. Arwyn Herald Roberts **(AHR);** ac Gillian Thomas **(y Clerc).** |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:**<br>Michelle Williams **(MW);** Dafydd Wyn Jones **(DWJ);** Tom Ellis **(TE)**; Adam Summers **(AS);** |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Dim |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION MAWRTH 2023 A MATERION YN CODI** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GVT gydag HR yn eilio a phawb yn cytuno<br><br>**a)** **GVT – LLIFOGYDD YN RHEDEG O GAE TŶ HEN AR Y GYFFORDD YN RHOSGADFAN**<br>Adroddodd AHR bod y Cyngor Sir wedi trafod gyda'r perchennog oedd wedi cytuno amserlen o bedair wythnos i gychwyn gwaith i arbed y llifogydd.<br><br>**b)** **TYLLAU AR Y FFORDD YN FFRWD CAE DU A HEIBIO DREFLAN RHOSGADFAN**<br>Y gwaith bellach wedi ei gwblhau.<br><br>**c)** **LLWYBR WAUNBANT**<br>Cytunodd Swyddog y llwybrau i Gyngor Gwynedd ymweld ar perchennog ymhellach i drafod eu traddodiad o hongian cyrff anifeiliaid ar ei ffens. Nid oedd y clerc wedi derbyn diweddariad hyd yn hyn.<br>Derbyniwyd argymhellion gan AMJ bod hyn yn Drosedd Trefn Gyhoeddus a cynigiodd i'r clerc gysylltu ar heddlu ar 101.<br><br>**d)** **MW - BINNAU GRAENU BRO CADFAN**<br>Roedd AHR wedi derbyn cytundeb bydd y biniau wedi eu hail lleoli o fewn y mis, adroddodd nad oeddent ar y safle hyd yn hyn, bydd yn cadw'r mater yn gyfredol gyda'r adran Priffyrdd. |
| 5. | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF CAIS/APP REF: C23/0222/24/LL** - Caravan, Moel Isaf, Rhos Isaf, LL54 7LY<br>Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw carafán sefydlog i'w defnyddio gan weithiwr amaethyddol / menter wledig.<br>**Dilyn a Darganfod –**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad – y clerc i ddiweddaru'r Adran Gynllunio |

| 6. | MATERION MISOL |
|---|---|

**a) SEDD WAG DINAS**
Derbyniwyd cais gan Nia Griffiths o Lanwnda i'w chyfethol i gynrychioli sedd wag Dinas. Cytunodd yr aelodau. Y clerc i ymestyn gwahoddiad iddi i'r cyfarfod nesaf.

**b) MYNWENT CEFNFAES**

- **LLWYBRAU – GORDYFIANT**
  Cynigiodd AWJ dderbyn prisiau Ifan Williams i baratoi'r gwaith islaw. Cytunodd pawb
  Crafu mwsog ar y llwybrau - £600+vat
  Trwsio walia - £300+vat

- **FFENS O AMGYLCH GORFFWYSLE'R PLANT**
  Trafodwyd prisiau oedd wedi ei derbyn gan Morris Williams ac Ifan Williams i baratoi gwaith i godi ffens haearn a ffens bren. Cynigiodd GVT bydd ffens brifet yn harddu'r safle ar gost lai.
  Y clerc i ofyn am bris.

- **ARCHEBU TIR YCHWANEGOL**
  Yn ystod cyfarfod Pwyllgor y Fynwent cytunwyd argymell i'r Cyngor Llawn gytuno agor cefn y fynwent i'r estyniad yn hytrach nac archebu tir ychwanegol i'r chwith. Cytunodd yr aelodau bod hyn yn welliant rhesymol.
  I clerc i ofyn am amcan bris ar gyfer postiau composti a gwifren ddecsill uchel yn yr estyniad.
  Cynigiodd AHR bwysigrwydd i gysegru'r tir cyn agor y bedd cyntaf. Cytunodd yr aelodau.

- **SEFYDLU PLAC YN GORFFWYSLE'R PLANT**
  Y clerc i ddarganfod cost plac llechan.

**c) CEISIADAU AM NAWDD**
Cytunodd y Cyngor gefnogi'r mudiadau canlynol:

- Cylch Meithrin Dinas A Llanwnda – £300
- Treialon Cŵn Defaid Llanllyfni – £100
- Theatr Bara Caws – £300
- Panel Golygyddu Lleu – £400
- Ysgol Gynradd Rhosgadfan – £1,000
- Clwb Pêl Droed Mountain Rangers- £2,000
- Dawns I Bawb – £300
- Clwb Henoed - £200

**d) CAMFA HEN GASTELL, LLANWNDA**
Derbyniwyd gohebiaeth gan Ddirprwy Weinidog Hinsawdd y Llywodraeth yn diweddaru bod ei swyddogion wedi cysylltu ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd. I berwyl hyn mae trefniadau wedi eu gwneud i atgyweirio neu newid y gamfa "heb leihau effaith" ar sail diogelwch. Rhoddir gwybod i'w swyddog pan fydd y gwaith wedi cael ei gwblhau.

**e) MEINCIAU GLAN RHYD A SGWÂR RHOSTRYFAN**
HR wedi gofyn i'r tîm tacluso eu trwsio, y tîm yn argymell trafod yn y cyfarfod.
Cynigiodd AMJ gysylltu â Grŵp Dinas i ofyn am amcan bris.

**f) GWEFAN Y CYNGOR**
Cynigiodd AMJ ac eiliodd JH dderbyn cost sefydlu gwefan newydd gan 1 and 1 Ionos.
Cynigiodd AMJ ac eiliodd JH archebu gliniadur newydd i'r clerc.

**g) HYFFORDDIANT**
Cytunodd yr aelodau bod diffyg hyfforddiant Cymraeg parhaol gan Un Llais Cymru a Planning Aid Wales yn annerbyniol a gofynnwyd i'r clerc llythyru a Chomisiynydd yr Iaith i gwyno.

| | |
|---|---|
| | **h) CAEAU CHWARAE**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan playsafety@rospaplaysafety.co.uk <mailto:playsafety@rospaplaysafety.co.uk>. yn cyhoeddi ffi set gychwynnol i archwilio hyd at bum eitem chwarae fel : £75.00 + VAT fesul man chwarae, ceir ffi ychwanegol o £3.50 am bob eitem dros bump.<br>Cytunodd yr aelodau fwrw blaen gyda'r archwiliadau ar gyfer caeau chwarae Rhosgadfan a Rhostryfan.<br><br>**i) HOLIADUR PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD**<br>Y clerc i adrodd cwyn am ddiffyg cyswllt gyda'r adran Gynllunio<br><br>**j) PERFFORMIAD Y CLERC**<br>I'w drafod yn y cyfarfod nesaf |
| 7. | **ADRODDIADAU** |
| | **CYNGHORYDD HUW ROWLANDS**<br><br>Adroddodd HR bod y Cabinet wedi gohirio penderfyniad i gau'r ysgol ac wedi cytuno i ymgynghori gyda'r rhieni a thrigolion fis Mai - Bydd yr achos wedyn yn cael ei godi eto fis Mehefin/Gorffennaf ar gyfer trafodaeth ar welliannau i'r Ganolfan - bydd yr ysgol yn parhau i agor am y cyfnod.<br>Byddent hefyd yn darparu arolwg ar gyfer yr ysgol feithrin.<br><br>Adroddodd ymhellach am gwynion wedi ei derbyn parthed ddiffyg casglu gwastraff ail gylchu.<br>Roedd wedi derbyn esboniad yn adrodd mae problem gyda salwch yw'r bai a gwybodaeth bod rhwng 10 ac 20 o lwybrau casglu angen cael ei ail asesu, cwmnïau preifat fel Sir Fôn yn syniad, bydd yr asesiadau yn cymryd hyd at flwyddyn i'w gwblhau.<br><br>**CYNGHORYDD ARWYN HERALD ROBERTS**<br><br>Adroddodd AHR bod yr adran Priffyrdd wedi cynnig gosod arwydd cyflymder digidol newydd ger Fron Wydr yn Rhosgadfan fis Awst - bydd costau rhedeg yn rhad ac am ddim am flwyddyn gyda chostau wedyn yn disgyn ar y Cyngor Cymuned. Cynigiodd GW dderbyn y cynnig gyda AMJ yn eilio.<br><br>Adroddodd ymhellach bod Data Gôr Yrru yn parhau i gael ei gasglu yn Rhosgadfan - hyd yn hyn mae'r data yn arddangos 12 % o fodurwyr yn gôr yrru.<br><br>Adroddodd bod tŷ gwydr plastig Ysgol Rhosgadfan wedi dioddef difrod dychrynllyd yn ddiweddar gan 3 merch 13/14. Roeddent wedi eu dal yn achosi'r difrod ar CCTV yr Ysgol, roedd yr ysgol wedi cysylltu ar rieni ar Heddlu.<br><br>Roedd yn falch i adrodd bod panad a sgwrs i'r henoed yn Ysgol Rhosgadfan gyda'r plant yn llwyddiannus iawn. Bydd gwr o Bontio yn bresennol yn yr ymweliad nesaf i chwarae gitâr. |
| 8. | **MATERION ARIANNOL** |
| | **a) DATGANIAD BLYNYDDOL 2022/23**<br>Cymeradwywyd y datganiad gan y Pwyllgor Cyllid, mabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn |

*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*
*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

b) **CYSONIAD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **28.03.23** | **CYFRIF CYFREDOL** | | **£10,620.60** |
| **29.03.23** | **CYFRIF CADW** | **+** | **£63,581.85** |
| **01.04.23** | **TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | **-** | **£1,190.00** |
| **2023/2024** | **GWARGED** | **+** | **-£11,467.48** |
| | | **=** | **£61,544.97** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 1 o Fawrth i 28 o Fawrth 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £63,343.87 |
| Derbyniadau | **+** | £147.98 |
| Gwariant | **-** | £0.00 |
| Balans Cau | **=** | **£63,581.85** |

**CYFRIF CADW - 28 o Chwefror i 27 o Fawrth 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £12,866.91 |
| Derbyniadau | **+** | £0.00 |
| Gwariant | **-** | £2,246.31 |
| Balans Cau | **=** | **£10,620.60** |

**=** **£74,202.45**

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR Y DATGANIADAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **15.03.23** | Morris Williams, Cefn Gwlad | **101691** | £190.00 |
| **15.03.23** | Eisteddfod Genedlaethol | **101692** | £1,000.00 |
| | | **=** | **£1,190.00** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO 15.03.23**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.04.23 | Pwyllgor Apêl yr Eisteddfod Genedlaethol | **101692** | £1,000.00 |
| 19.04.23 | Ifan Williams | **101693** | £4,824.00 |
| 19.04.23 | Y Clerc | **101694** | £656.50 |
| 19.04.23 | Ysgol Rhosgadfan | **101695** | £1,000.00 |
| 19.04.23 | Cylch Meithrin, Llanwnda | **101696** | £300.00 |
| 19.04.23 | Clwb Pêl Droed Mountain Rangers | **101697** | £2,000.00 |
| 19.04.23 | Dawns I Bawb | **101698** | £300.00 |
| 19.04.23 | Theatr Bara Caws | **101699** | £300.00 |
| 19.04.23 | Papur Bro Lleu | **101700** | £400.00 |
| 19.04.23 | Y Clerc | **101702** | £386.98 |
| 19.04.23 | Clwb Henoed Llanwnda | **101703** | £200.00 |
| 19.04.23 | Treialon Cŵn Defaid Llanllyfni | **101704** | £100.00 |
| | | **=** | **£11,467.48** |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** **=** **£61,544.97**

| | |
|---|---|
| 9. | **GOHEBIAETH** |
| | **a)** **<u>YMGYNGHORIAD CWMPAS ARGYFWNG GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU</u>**<br>Cyfarfod Zoom I Ynys Môn/Gwynedd bydd y grŵp ffocws yn cael ei gynnal am 10am Ebrill 21ain.<br><br>**b)** **<u>HR – CIAS I FYNYCHU CWRS PLANNING AID</u>**<br>Cytunodd HR ddisgwyl am hyfforddiant Gymraeg<br><br>**c)** **<u>DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD GWASANAETH GCTMB</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**d)** **<u>YMCHWIL CYNHWYSIANT NANTLLE</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**e)** **<u>ATEB GAN Y GWEINIDOG PARTHED CAMFA LLANWNDA</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**f)** **<u>MODEL REOLAU SEFYDLOG – UN LLAIS Cymru</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**g)** **<u>CRONFA MYND AMDANI FUND</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**h)** **<u>TERFYNAU CYFLYMDER 20MYA – CYFLE I ROI EICH BARN</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**i)** **<u>ADOLYGIAD DATGANIAD ARDAL</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu |
| 10. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | **a)** **<u>TWLL AR Y FFORDD GER TYDDYN BERTH, RHOSTRYFAN</u>**<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir<br><br>**b)** **<u>TWLL AR Y FFORDD GER GIÂT GADLYS RHOSTRYFAN</u>**<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir<br><br>**c)** **<u>NE - CAIS AM GOPÏAU PAPUR MEWN CYFARFODYDD</u>**<br><br>**d)** **<u>GW - LLWYBR BRYN BACH I FRITHDIR</u>**<br>Y clerc i adrodd am rwystrau ar y llwybr |
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | Cyfarfod Blynyddol - 17eg o Fai 2023 – Capel Rhostryfan – 6.30yh<br>Cyfarfod Misol I ddilyn<br><br>GVT – Diffygion i lwybrau cerdded yn Rhosgadfan / Cae Magw |